

Cofnodion Is-bwyllgor cyllid Y Bala, 18 Rhagfyr 2019

1. Trafodwyd materion yn codi o Gofnodion Rhagfyr 2018:
 - i. Partneriaeth Penllyn wedi tynnu allan yn llwyddiannus o gyfrifon Cyngor Tref Y Bala
 - ii. Cyngor Tref Y Bala yn parhau i dalu am y toiledau; Partneriaeth Penllyn yn parhau drafod gyda Chyngor Gwynedd.
CYTUNWYD i dynnu yr hyn sy'n ddyledus allan o'r £8000
CYTUNWYD: i holi am faes parcio wrth y Ganolfan Hamdden
CYTUNWYD i ofyn i Cynghorydd Dilwyn Morgan geisio cael trefn ar y 10% ffi lleol
 - iii. Glanhau lloches bws: G Roberts wedi gorffen a'r person newydd heb wneud.
CYTUNWYD i drafod yn y Cyngor.
2. Adolygwyd:
 - i. Y Rheolau ariannol
 - ii. Asesiad o Risgau Ariannol
 - iii. Polisi Yswiriant: **CYTUNWYD** i holi cwmnïau am brisiau ac am gytundeb 3 mlynedd
3. Archwiliad Mewnol 2018-19:
 - i. Adolygwyd y broses archwilio mewnol 2018-19 a'i gael yn foddhaol
 - ii. Nodwyd y gwahaniaeth o £1 yn y cyfrifon yn ôl Adroddiad yr Archwilyr Allanol
 - iii. Cadarnhawyd penodi Luned Fôn yn Archwilydd Mewnol ar gyfer 2019-2020
 - iv. Cytunwyd ar y Llythyr Ymrwymiad i'r Archwilydd Mewnol 2019-20
4. Trafodwyd ffocws yr Archwiliad Allanol 2019-20: Arian wrth gefn; gwneud taliadau
5. Adolygwyd Cyflogau (yn absenoldeb y Clerc)* **Cytunwyd** i gadw at PWYNT 21 o Payscale NALC ar gyfer 2020-21 (heb ei gyhoeddi ar hyn o bryd). **CYTUNWYD i ychwanegu at oriau gwaith y Clerc – o 35 awr y mis i 40 awr y mis o 1/4/20.** (Yn 2019-20 roedd PWYNT 21 yn £13.41 yr awr.) **Ar y Pay Scale presennol byddai yn yn gyfanswm o £6,436.80.** *Cytunwyd i ychwanegu 3% at hwn ar gyfer y Gyllideb, tra'n aros am gytundeb NALC sef £6630*
6. Trafodwyd y sefyllfa ariannol presennol a thebygol erbyn 30/3/20 a chafwyd bod y symiau yn hynod agos at yr hyn a osodwyd yn y Gyllideb ar gyfer 2019-20.
NODWYD fod y Cynghorwyr i gyd wedi gwrthod y Lwfans o £150 yr un ac wedi mynegi dymuniad i'w gyfrannu at drigolion Y Bala. Cytunwyd i'w holi a fyddent yn hapus fod y swm - wedi ei wneud fyny i £2000 o arbedion eraill yn y flwyddyn - yn cael ei gyfrannu at Glwb Gwaith Cartref Ysgol Godre'r Berwyn i brynu offer technolegol.
7. Cafwyd trafodaeth ar feysydd gwario penodol:
 - i. Cynnal a chadw'r Domen: Hysbysebu'r Cytundeb 3 mlynedd
 - ii. Ffi Parcio – parhau i geisio derbyn hwn
 - iii. **Argymhellwyd clustnodi symiau ar gyfer prosiectau penodol yn y flwyddyn ariannol nesaf:**
 - a. **£2000 i Achlysur Cenedlaethol: Eisteddfod Powys yn debygol o gael gwahoddiad**
 - b. **£5000 i Brosiect Adnoddau i Ieuencid:**
 - c. **£2000 i brosiect Byrddau gwybodaeth – yn ddibynnol ar ennill grant**
 - d. **£2000 tuag at gynllun Goleuadau Nadolig sydd yn cael ei drafod yn y Grŵp Busnes**
8. **Gosodwyd y gyllideb 2020-21 i'w roi o flaen y Cyngor llawn**
9. **Argymhellwyd praesept o £25,000 i'r Cyngor llawn. Mae hyn £1000 yn uwch na'r blynyddoedd diwethaf. Effaith hyn ar dŷ yn Band D yw £32.03 (yn hytrach na £30.75 llynedd)**